# Holi Hanesydd:

# Yr Athro Ralph Griffiths

## Creu Hanes: y ddisgyblaeth mewn persbectif

**Detholiad o gyfweliad a gynhaliwyd yn yr Athrofa Ymchwil i Hanes, Llundain, 23 Gorffennaf 2008. Roedd y cyfweliad hwn ar gyfer y project 'Creu hanes: y ddisgyblaeth mewn persbectif' gyda'r Swyddog Project Danny Millum (SP) yn siarad â'r Athro Ralph Griffiths am ei brofiad o newidiadau yn y ddisgyblaeth a'i farn ar hynny ac ar broffesiwn academaidd hanes.**



**SP: Athro Griffiths, a gawn ni ddechrau ag ychydig o wybodaeth fywgraffyddol?**

**Ralph Griffiths (RG):** I ddechrau yn y dechrau, rwyf i'n hanu o un o'r cymoedd glofaol ar y ffin rhwng Sir Forgannwg a Sir Fynwy, lle cefais i fy magu. Mynychais un o ysgolion gramadeg da Cymru, ddywedwn i, gan gael addysg dda yn y mwyafrif o bynciau. Es i ymlaen i Brifysgol Bryste, lle graddiais a chychwyn ar ymchwil gan dreulio'r rhan fwyaf o fy amser yma yn Llundain. Yna fe gefais gymrodoriaeth ymchwil ym Mhrifysgol Cymru ac yn y pen draw penodiad academaidd yn Abertawe.

**SP: A sut penderfynoch chi fynd yn hanesydd?**

**RG:** Dwyf i ddim yn siŵr a allaf i ateb y cwestiwn yna â chof gwallus. Roedd hanes yn fy swyno pan oeddwn i'n ifanc iawn, a byddwn i'n poeni fy rhieni i fynd â fi yma a thraw i weld safleoedd. Doeddwn i ddim yn byw yn bell, ryw ddeng milltir efallai, o Gastell Caerffili, oedd yn lle rhyfeddol i fachgen chwech, saith neu wyth mlwydd oed ei weld. Yn y brifysgol roedd gen i ddiddordeb mawr mewn hanes a daearyddiaeth, ac mae'n siŵr i mi ddarganfod bryd hynny mai hanes oedd fy mhrif ddiddordeb, ac yn enwedig hanes canoloesol, er nad hynny'n unig.

**SP: A oedd unrhyw ddylanwadau deallusol y gallech chi eu nodi fel rhai oedd yn arbennig o bwysig i chi? Rwyf i'n meddwl am bobl y gallech fod wedi darllen eu gwaith yn hytrach na'u cyfarfod.**

**RG:** Oedd. Wel yn bendant roedd y deunydd oedd ar gael ar y pryd mewn print o natur eilaidd i fyfyrwyr ei ddarllen yn brin iawn o'i gymharu â'r hyn sydd ar gael heddiw. Ond mae'n debyg y byddwn i'n dweud mai'r un a wnaeth argraff arnaf i wrth ddarllen oedd rhywun sy'n anffasiynol iawn y dyddiau hyn, sef T.F. Tout. Hanesydd gweinyddol mewn rhai ffyrdd, ond dyw hynny ddim yn gwneud cyfiawnder â'i waith, mae'n llawer ehangach o ran cysyniad, yn wleidyddol, ac er fy mod yn amau na fyddai'n ei ddisgrifio'i hun fel hanesydd cymdeithasol, mae rhywfaint o hanes cymdeithasol yna hefyd.

A daeth hyn i mi drwy Margaret Sharp mae'n debyg. Drwy Charles Ross deuthum i edmygu K.B. McFarlane, a'i agwedd bur wahanol

at hanes. Gwleidyddol mewn un ystyr, ond â llawer mwy o bwyslais cymdeithasol. Yn ymwneud llawer yn llai ag uchel wleidyddiaeth a gweithredoedd brenhinoedd a breninesau'r canol oesoedd a theuluoedd brenhinol a llysoedd, a llawer mwy ag uchelwyr a bonedd Lloegr. Ac yn bendant fe ddeuthum i edmygu llawer o'r hyn roedd yn ei ysgrifennu, y cyfan a ysgrifennodd. Er fy mod yn ei weld yn hynod o ddifyr yn fy meddwl fy hun i roi agwedd Tout ac agwedd McFarlane gyda'i gilydd ac mae'n rhaid ei fod yn eithaf anarferol fy mod wedi cael y cyfle i wneud hynny'n agos.

Fe ddywedwn i unwaith iddo ddechrau ysgrifennu bod agweddau a gallu meddyliol Rees Davies, y gallwn ond ei edmygu heb ei efelychu, yn nodedig tu hwnt. Fe arferai roi rhai o'i ddarnau i mi eu darllen cyn iddo eu cyhoeddi, a byddwn i'n gwneud rhai sylwadau ffôl arnynt, ac yn ddiweddarach yn fy mywyd deuthum i sylweddoli peth mor ddigywilydd oedd hynny. Ac roedd ef wrth gwrs, i mi, yn cynnig y dimensiwn Cymreig yn ogystal â'r dimensiwn Prydeinig i'n hastudiaethau, ac rwyf i'n rhannu hynny ag ef. Diddordeb mawr yn y berthynas rhwng Lloegr a gwledydd eraill Ynysoedd Prydain.

Fe ddywedwn i hefyd Glanmor Williams. Roedd y Saesneg a ysgrifennai'n hyfryd, er ei fod yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg ac yn ysgrifennu yn y ddwy iaith. Mae arddull brydferth, bersain i'w Saesneg, ac fe ddysgais i lawer ganddo. Byddwn i hefyd yn dweud o ran gwyro at yr ochr gymdeithasol a'r ochr syniadol, Gwyn Alfred Williams, hanesydd modern (er iddo ddechrau fel hanesydd canoloesol). Roedd ef a Glanmor Williams a nifer o rai eraill, fel Kenneth Morgan, yn flaenllaw mewn chwyldro o ran y ffordd y câi hanes Cymru ei gofnodi. Ac roeddwn i'n falch iawn yn Abertawe cael dod yn rhan o hynny.

Felly roedd y rhain i gyd yn gyfuniad o ddylanwadau mewn rhai ffyrdd. Ond mae pob un yn rhyw fath o gyfrannu at bethau, o leiaf yn fy meddwl i.

**SP: Ac rydych chi'n sôn am chwyldro o ran hanes Cymru. Roeddwn i'n meddwl tybed oedd gennych chi unrhyw sylwadau am y ffordd mae hanes Cymru ac astudiaeth ohono wedi newid yn ystod eich gyrfa. Efallai yn nhermau, hefyd, newidiadau yn y modd y mae'r berthynas rhwng Lloegr a'r hyn a elwir yn diriogaethau iddi wedi'i hastudio yn ystod y cyfnod hwnnw.**

**RG:** Mae lle astudiaethau o Gymru, ac addysgu hanes Cymru, ym Mhrydain Fawr, wedi newid sawl gwaith dros y can mlynedd diwethaf mae'n debyg. Roedd astudiaethau hanes Cymru'n arafach yn cychwyn i'r cyfeiriad gwyddonol, academaidd. O ran gweddill Prydain, yn Lloegr, byddai wedi bod tua'r 1870au, ac wedi hynny. Yng Nghymru, mae'n debyg mai ond yr 1890au, 1900au ac wedi hynny. Mae newid mawr i'w weld yma.

**SP: Ac mae hynny'n newid o ...?**

**RG:** Mae hynny'n newid o'r agwedd ramantaidd, fytholegol, themâu mawreddog, i'r gwyddonol, yn seiliedig ar ymchwil, yn ymgyrraedd at ddealltwriaeth yn hytrach nag ysgrifennu ac addysgu er mwyn canmol y genedl a brwydrau'r Cymry. Mae hynny'n dyddio o ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae hanes Cymru fel pwnc i'w weld yn cael ei ddysgu mewn nifer o brifysgolion yn enwedig yng Nghymru yn rhan gyntaf yr ugeinfed ganrif.

Ac yna o'r 1930au ymlaen, er bod y rhyfel yn torri ar ei draws i raddau, rydych chi'n gweld creu adrannau Hanes Cymru ar wahân yn rhai o golegau prifysgol Cymru. Felly mewn ffordd, mae hynny'n rhoi proffil uwch iddo, a mwy o barchusrwydd. Nid ym mhob un – doedd Caerdydd ac Abertawe byth yn awyddus iawn i hollti'n adrannau ar wahân, am resymau deallusol da, ac roedd hynny'n iachus i'r pwnc.

Ac mae'n debyg dros yr 20, 30 mlynedd diwethaf, fod yr arwahanrwydd wedi diflannu, ac erbyn hyn mae addysgu ac astudio hanes Cymru, gallech chi ddweud, bellach wedi dod i oed, ac wedi'i gynnwys yn addysg hanes Prydain yn fwy cyffredinol. Mae hynny wedi digwydd ers yr 1980au efallai.

**SP: Ac oes unrhyw wahaniaethau neu drafodaethau sylweddol neu faterion dadleuol eraill yn eich maes – unwaith eto y gallech chi eu dilyn dros eich gyrfa?**

**RG:** Rwyf i'n credu mai'r un a ddaeth yn fwyaf amlwg i mi fel darlithydd ifanc oedd y newid o hanes oedd yn bennaf yn wleidyddol a chyfansoddiadol i hanes llawer ehangach ei ganfyddiad. Nawr ym Mryste fe'm dysgwyd mewn traddodiad lle'r oedd gwleidyddiaeth, llywodraeth, cyfansoddiad, biwrocratiaeth, sut i redeg pethau'n yn y gorffennol – roedd y rhain i gyd yn bynciau pwysig. Ar y llaw arall, ar yr un pryd, fe roddwyd sylfaen dda i mi mewn hanes economaidd. Ac erbyn yr amser i mi ddod yn ymchwilydd roedd hanes economaidd wrth gwrs wedi'i sefydlu'n gadarn fel pwnc, ac roedd pawb, doedd dim cwestiwn am y peth, roedd pawb yn mabwysiadu cwestiynau economaidd yn eu hymchwil yr un mor fynych â rhai gwleidyddol neu unrhyw beth arall.

Ond yr un peth a'm hwynebai rwy'n credu,

ar ddechrau fy ngyrfa dysgu oedd y cwestiwn o hanes cymdeithasol. Nawr mae hanes cymdeithasol yn ffenomen fwy diweddar. Rwyf i'n cofio i ni gael trafodaethau ar yr hyn oedd hanes cymdeithasol. Mewn ffordd roedden nhw'n cael cymorth yng Nghymru oherwydd bod mantais gennym ni (os oeddech chi'n gwybod unrhyw hanes Cymreig) oherwydd ar ôl diwedd y dywysogaeth annibynnol yn 1282, roedd hanes Cymru i gyd yn hanes cymdeithasol, a hanes economaidd ac yn y blaen. Ond nid oedd hwn yn ymwneud â'r wladwriaeth neu wleidyddiaeth, neu'r cyfansoddiad. Felly daeth hanes cymdeithasol yn llwybr pwysig, yn llwybr llydan iawn ar gyfer y mwyafrif ohonom ni gan ein bod ni'n dysgu yn Abertawe.

Y cwestiwn mawr arall mae'n debyg oedd – ac eto fe'i hwynebais pan ddes i'n ddarlithydd ifanc – oedd y cwestiwn o hanes canoloesol. Nawr dyma'r 1960au – fe'm dysgwyd mewn prifysgol ym Mryste lle'r oedd  dysgu ac astudio hanes canoloesol o leiaf yr un mor bwysig ag unrhyw faes arall o hanes. Ac roedd athrawon hanes canoloesol nodedig yno. Roeddwn i'n credu bod pob man yr un fath.

Ond wrth gwrs doedden nhw ddim, ac roedd prifysgolion newydd yn cael eu sefydlu, ac er bod ganddynt hanes ar y maes llafur gwnaeth rhai ohonynt benderfyniad bwriadol i beidio â dysgu unrhyw hanes cyn y Dadeni, cyn dyweder tua 1500. Roedd hyn yn gwylltio canoloeswyr drwy'r wlad.

Wel fe welais i hynny i raddau yn Abertawe ar lefel fwy cul, yn y trafodaethau am 'Wel beth ddylai fod yn orfodol o ran dysgu myfyrwyr hanes? A ddylen nhw gael eu dysgu hyn a'r llall ac arall ac yn y blaen?' Ac roedd cynigion y dylai hanes canoloesol fod yn ddewisol. Ni ddylai fod disgwyl i bobl fod â sylfaen mewn hanes canoloesol yn yr ystyr y dylen nhw gael sylfaen yng nghyfnod y chwyldro ôl-ddiwydiannol.

Ac arweiniodd hynny at lawer o ddadlau. Yn gyntaf penderfynwyd – ac roeddwn i'n falch mewn ffordd er fy mod i'n ddig am y peth ar y pryd – rhoi dewis rhydd i fyfyrwyr, er ein bod ni i gyd yn gwybod mai prin fyddai'r wybodaeth am hanes canoloesol y byddai ganddyn nhw wrth ddod o'r ysgol. Fodd bynnag, yr hyn a ddigwyddodd oedd unwaith y rhoddwyd dewis rhydd i'r myfyrwyr, penderfynodd y mwyafrif astudio hanes canoloesol!

**SP: Os symudwn ni i sôn am y proffesiwn yn gyffredinol nawr, rwy'n gwybod eich bod wedi sôn am ddatblygiadau yn nhermau dyrchafiad hanes economaidd a hanes cymdeithasol. Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw dueddiadau penodol ym mhoblogrwydd gwahanol gyfnodau neu wahanol agweddau?**

**RG:** Mae hanes economaidd mae'n debyg yn llai poblogaidd nawr nag y bu. Mae hanes syniadau yn rhywbeth sydd wedi tyfu ac wedi dod yn fwy canolog i'r proffesiwn yn ystod fy nghyfnod i, ac mewn gwirionedd ar draws sbectrwm hanes yn gyfan gwbl. Ac mae hynny'n beth gwych. Rwyf i'n credu bod hyn wedi bod yn beth ffrwythlon iawn.

Mae hanes crefydd mae'n debyg wedi tueddu i ganolbwyntio ar y cyfnodau chwyldroadol allweddol yn hanes crefyddau, ond wn i ddim. Pe bawn i'n dyfalu fe ddywedwn i mae'n debyg y bydd hanes crefydd yn cynyddu o ran poblogrwydd yn hytrach nag edwino.

O ran meysydd daearyddol – wel mae dyrchafiad hanes Prydain yn rhywbeth sydd wrth reswm yn ail natur i hanesydd o Gymro. Nid yw hyn wedi bod yn rhywbeth y bu'n rhaid i mi gael fy argyhoeddi ohono, fel y bu'n rhaid argyhoeddi llawer o haneswyr o Loegr, ac yn wir gall haneswyr o'r Alban, Cymru ac Iwerddon fod yr un mor fewnblyg am hanes – o leiaf mae hyn wedi bod yn wir yn y gorffennol – ag unrhyw hanesydd o Loegr. Ond o edrych yn ôl ar y cyfnod y bûm i'n astudio hanes mewn prifysgol yn Lloegr ac astudio am ddoethuriaeth mewn prifysgol Eingl-Gymreig, ac yna symud i brifysgol yng Nghymru i wneud fy addysgu, a chadw fy holl gysylltiadau, mae wedi bod yn haws i mi weld astudiaethau am Gymru mewn cyd-destun ehangach fel yr wyf i bob amser wedi gwneud – ac yn sicr rwyf i'n ei wneud nawr.

Rwyf i'n ceisio – heb fawr o lwyddiant – rhoi'r un amlygrwydd i hanes Eingl-Albanaidd ac Eingl-Wyddelig ag yr wyf yn ei roi i hanes Eingl-Gymreig – ond rwyf i yn gwneud ymdrech. Ac rwy'n credu ei fod yn bwysig iawn, ac fe fwynheais i ychydig flynyddoedd yn ôl, olygu cyfrol *Short Oxford History of the British Isles* ar y cyfnod canoloesol diweddar, a wnaeth fy ngalluogi i wrth ysgrifennu'r cyflwyniad a'r epilog i ddod â'r pedair gwlad Brydeinig a'u hanes at ei gilydd, o ran eu gwahaniaethau a'u tebygrwydd, eu profiadau cyffredin. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi digwydd yn fy nghyfnod i, ac rwyf i wedi elwa'n fawr ar y newid hwnnw.

Roedd hanes Americanaidd yn dechrau dod yn boblogaidd mewn prifysgolion ym Mhrydain pan ddechreuais i, ond prin oedd yr haneswyr Americanaidd eithriadol o dda o Brydain, er bod pethau wedi newid rwy'n credu dros amser. Dau faes sydd wedi datblygu yw hanes America Ladin a'r llall oedd y Gymanwlad. Ac ym Mhrifysgol Cymru roedd yn cyd-fynd yn dda gyda hanes Eingl-Gymreig oherwydd mae holl gwestiwn mudo, ymfudo ac yn wir mewnfudo

wedi profi'n thema ffrwythlon iawn i'w datblygu.

Cyfnodau? Wel rwyf i'n dal i deimlo bod hanes canoloesol yn denu llawn cymaint o sylw ac mae hynny'n beth da, mae natur hanes canoloesol yn golygu wrth i gwestiynau newydd ddod i feddyliau haneswyr mae archwilio'r profiad canoloesol yn parhau'n beth gwerthfawr i'w wneud. Mae arwydd yng Nghymru – ond pryder sefydliadol yn hytrach na phynciol yw hyn – bod y nifer o haneswyr canoloesol yn crebachu. Ond mae'n bosibl mai rhywbeth dros dro yw hyn. Mewn termau cyfnodoli mewn mannau eraill rwyf i'n cofio yn fy amser mae'n debyg nad oedd meysydd llafur hanes ym Mryste yn mynd y tu hwnt i 1914. Newidiodd hynny'n gyflym iawn. Yn Abertawe roeddem ni ychydig mwy ar y blaen, ond dim ond yn fy amser i mae ystyriaeth wedi'i roi i addysgu hanes hyd at y presennol.

**SP: Datblygiad hanes cyfoes.**

**RG:** Yn wir, ie. Ac mae hynny wedi bod yn newid mawr – y cysyniad o hanes cyfoes – y syniad, fel y dywedaf, ein bod ni wedi diweddu yn 1914 ym Mryste. Yn Abertawe roeddem ni'n diweddu mae'n debyg yn 1945. Ac felly rydym ni wedi symud ymlaen, ond erbyn hyn mae hanes cyfoes wedi agor yr holl beth yn llydan.

**SP: Ac ar drywydd gwahanol, oes gennych chi farn ar y ffordd y gallai'r berthynas rhwng hanes academaidd a'r hyn a elwir yn hanes poblogaidd fod wedi newid? Os meddyliwch chi'n ôl i'r ffordd yr oedd pethau yn ystod yr 1950au neu'r 1960au.**

**RG:** Mae'r cyswllt rhwng hanes academaidd a'r hyn a elwir yn hanes poblogaidd yn bwysig dros ben. Os nad yw academyddion yn cyfrannu at ysgrifennu a darlledu hanes poblogaidd drwy ba bynnag gyfrwng a bod y ddau yn ymwahanu, gall hynny ond bod er drwg i'r ddau. Rydym ni'n gweld yr hyn sy'n digwydd i hanes poblogaidd ambell waith lle mae'r cyswllt wedi torri. Pan ddechreuais i fel athro megis dechrau oedd y teledu fel prif gyfrwng. Roedd radio, ac ar y pryd (roedd hyn cyn darlledu annibynnol wrth gwrs) gorsafoedd radio'r BBC (ac roedd un yng Nghymru a hefyd yn genedlaethol ac yn yr Alban ac Iwerddon) yn bwysig iawn. Roedd y gorsafoedd yn recriwtio academyddion yn rheolaidd i wneud darllediadau. Dydym ni ddim yn gwneud hynny ddigon bellach.

Dyfeisiwyd nifer o ddarllediadau nodedig iawn, a arweiniodd at gyhoeddi llyfrau. Roedd rhai o'r bobl orau yn eu gwneud nhw. Gallaf feddwl am un am y Normaniaid, un gan y BBC yma yn Llundain. Roedd un ar 'Cymru drwy'r Oesoedd' yn yr 1950au gan y BBC yng Nghaerdydd.

**SP: A byddai haneswyr yn rhan o hyn?**

**RG:** A'r haneswyr oedd yn cyfrannu fyddai'r Athro Hanes Cymru yn fan hyn, Athro Hanes Canoloesol fan acw, roedd Cyfarwyddwr yr Athrofa yma, Goronwy Edwards yn un. Roedden nhw'n mynd am y bobl orau. Wrth gwrs nid pawb sy'n wych yn siarad ar y radio ond fe ddaethon nhw i arfer â gwneud, ac felly fe ddysgon nhw.

Y peth arall a ddigwyddodd oedd mai nhw hefyd oedd yn ysgrifennu'r sgriptiau. Neu o leiaf nhw oedd yn ysgrifennu sylwedd y sgriptiau – yna roedd rhaid rhoi sglein ac ati arnyn nhw. Rwy'n credu ei fod yn gyswllt hynod o werthfawr rhwng y cyhoedd ac academyddion a phrifysgolion a hanes academaidd. Nid yw radio yn gwneud cymaint o hyn ag y bu, neu os yw'n gwneud mae'n fwy tameidiog. Mae'n llai trefnus, yn fwy o raglenni unigol, ac felly mae'n cael llai o effaith.

Mae teledu'n gyfrwng sydd llawer anoddach ei harneisio i'r bywyd academaidd, yn fy marn i, oherwydd mae'n ymddangos i mi mai canfyddiad cyffredin y sawl sy'n rhedeg rhaglenni teledu yw os oes gennych chi unrhyw gyfraniad hirach na dau funud ar unrhyw bwnc bydd y gwyliwr yn colli diddordeb, a bydd rhaid cael ryw berson ffotogenig i gerdded o gwmpas drwy'r amser, yn hytrach na throslais. Mae hyn i gyd i mi yn colli'r cyfle sy'n dod gyda darlledu ac felly'r cyswllt gyda hanes poblogaidd.

O ran ysgrifennu – mae rhai academyddion yn dda yn ysgrifennu hanes poblogaidd a dylent wneud cymaint â phosibl ohono. Nid yw pawb yn ei wneud yn dda, ac mae'n rhaid derbyn hynny. Mae rhai'n wych ac yn fanwl ac yn ddarnau gwreiddiol o ysgrifennu os efallai ychydig yn gyfyngedig o ran cwmpas – mae hynny'n iawn. Ond po fwyaf sy'n gallu troi eu meddyliau at hanes poblogaidd, gorau oll. Wedi'r cyfan, mae 'na farchnad fawr allan yna.

Fy mhrofiad personol i yw po fwyaf mae academyddion yn cysylltu â chymdeithasau lleol, unigolion lleol sydd â diddordeb mewn hanes y gorau. Rwyf i wastad wedi mynd allan o fy ffordd i dderbyn gwahoddiadau i siarad â chymdeithasau hanes sirol, cymdeithasau hanes lleol. Unrhyw beth – pob math o gymdeithasau a grwpiau. Maen nhw'n dod ar bob lliw a llun. A phan oeddwn i'n fyfyriwr israddedig roeddwn i'n ymwybodol ym Mryste eu bod yn gwneud llawer o hynny. Mwy fyth yn Abertawe. Roeddem ni i gyd yn cael ein hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, lledaenu'r efengyl os hoffech chi. Porthi diddordeb mewn hanes. Cefnogi cymdeithasau o un math neu'i gilydd

oedd bron yn ddieithriad yn hynod o ddiolchgar.

Efallai fy mod i'n anghywir ond fy nheimlad i yw gyda'r holl alwadau ar amser academyddion y dyddiau hyn o ran ymchwil a dulliau asesu ac yn y blaen, bod hwn yn un maes sy'n tueddu i gael ei esgeuluso ychydig. Ac mae llai ohono.

Yn yr un modd fy mhrofiad i yw ei fod yn werthfawr ymuno â phwyllgorau cymdeithasau hanes sirol, mentrau sy'n datblygu yn y gymuned, i'r cyhoedd yn gyffredinol, ymwybyddiaeth o ymdeimlad o hanes. Ac rwyf i'n credu bod llawer o academyddion yn dal i wneud hynny. Rwyf i'n bendant yn gwneud.

**SP: Ac mae'n debyg yn gysylltiedig â hynny mae fy nghwestiwn olaf ond un, sy'n ymwneud â dysgu hanes mewn ysgolion, sydd yn amlwg yn faes arall lle mae gwreiddiau'r pwnc academaidd yn cael eu bwydo, ac a oeddech chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau'n codi o unrhyw ddatblygiadau yn y modd y caiff hanes ei ddysgu dros amser?**

**RG:** Wel, dwyf i ddim yn arbenigwr o unrhyw fath ar hyn. Rwyf i'n mynd i ysgolion, wel, roeddwn i'n arfer mynd yn go aml i ysgolion i roi sgyrsiau. Am gyfnod hir ar ôl i mi ddechrau dysgu roedd y meysydd llafur yn sefydlog. Roedd y meysydd llafur unigol yn newid ychydig, ac o'r 1970au ymlaen dechreuon nhw newid yn gyflymach. Ac rwy'n cofio bod yn un o'r cynrychiolwyr prifysgol ar yr hyn yng Nghymru oedd yn Gyd-bwyllgor Addysg Cymru sef y bwrdd yng Nghymru oedd yn gyfrifol am ddyfeisio meysydd llafur ac arholiadau ac yn y blaen ar gyfer lefel A a lefel O. Ac fe fyddem ni'n cael dadleuon ffyrnig am y newidiadau oedd yn digwydd.

Ond ar wahân i hynny fyddwn ni ddim yn hoffi pregethu am yr hyn sy'n digwydd mewn ysgolion. Fodd bynnag rwyf i'n teimlo bod athrawon yn cael amser caled. Rwyf i'n teimlo mai nhw yw'r dioddefwyr yn hyn i gyd. Nid y plant, nid y prifysgolion sy'n derbyn y plant wedyn, ond mae'r athrawon yn cael amser caled iawn yn gorfod cadw'n gyfoes â'r holl newidiadau mewn meysydd llafur, gyda llawer yn cael eu dyfeisio mewn pynciau penodol heb eu gwybodaeth a heb eu mewnbwn a heb eu cyngor.

Y newid mawr a ddigwyddodd, sydd wedi ei ddifaru ers hynny, oedd rhoi'r gorau i gyrsiau arolwg ac yn lle hynny mynd am ddarnau bach fan hyn a fan draw, heb gyswllt. Yr amcan yw gwthio'r elfen ymchwil i mewn i ysgolion. Rhoi blas iddyn nhw o sut beth yw bod yn hanesydd, sydd yn uchelgais clodwiw, ond rwyf i'n gwybod ei fod wedi arwain at sefyllfa lle nad yw myfyrwyr yn gwybod i sicrwydd mai yn yr 11eg ganrif roedd Gwilym y Concwerwr yn hytrach na'r 17eg ganrif a phethau rhyfedd o'r fath.

**SP: Yn absenoldeb fframwaith?**

**RG:** Ie. Rydym ni fel pe baem ni'n symud i ffwrdd o'r enghreifftiau mwy eithafol o hynny. Ac o ran paratoi myfyrwyr pan fyddan nhw'n dod i'r brifysgol, do fe sylwais i ar newid. Mae'n gysylltiedig â'r hyn rydym ni newydd fod yn siarad amdano. Crebachodd y paramedrau roedd myfyrwyr yn ymwybodol ohonyn nhw mewn hanes. Doedd ganddyn nhw ddim syniad o ystodau eang o hanes, ac roedd eu gwybodaeth gyffredinol, sy'n cael ei bigo i fyny mewn pob math o ffyrdd, yn wan. Felly roeddwn i'n ffeindio fy hun yn gorfod addasu fy ffordd o ddysgu yn y brifysgol. Dyw hynny ddim o reidrwydd yn beth drwg, ond roedd rhaid i chi addasu eich dysgu, efallai bod yn fwy medrus yn y flwyddyn gyntaf wrth ymdrin â myfyrwyr, er mwyn darparu'r hyn oedd yn cael ei ddarparu'n flaenorol yn yr ysgolion.

Rwyf i'n credu efallai bod y symudiad o'r radio i'r teledu, wedi cael effaith anffodus ar bobl ifanc. Dwyf i ddim yn siŵr o'r 1980au ymlaen pa mor aml roedd plant yn yr ysgol yn gwrando ar y radio. Ac mae hynny'n bwysig, llawer pwysicach rwyf i'n amau, na theledu i ddatblygu eu gwybodaeth gyffredinol. Yn syml am fod rhaid i chi wrando'n fwriadol ar y radio ond mae modd eistedd o flaen y teledu heb o bosibl amsugno'r hyn sy'n cael ei ddweud.

**SP: Y gwahaniaeth rhwng gweithgaredd gweithredol a goddefol.**

**RG:** Ie. Ac mae hynny'n newid mawr sydd wedi digwydd. Cafodd yr effaith anffodus mae'n debyg o beidio â rhoi modd i fyfyrwyr prifysgol wneud dewis rhydd mor eang ag y gallent wrth ddewis pa agweddau o hanes i'w hastudio. Ond fyddwn i ddim ar unrhyw gyfrif am gondemnio'r hyn sydd wedi digwydd mewn ysgolion. Mae gennyf i lawer o gydymdeimlad ag athrawon ysgol a'r galwadau sy'n cael eu gosod arnynt, ac yn aml mae eu rhwystredigaeth yn deillio o fethu, nid rheoli, bod â chyfraniad i'w wneud i'r newidiadau y mae'n rhaid iddyn nhw eu gweithredu.

**SP: Mae hynny'n ddiddorol iawn. Ac i orffen roeddwn i am ofyn i chi oes gennych chi unrhyw beth i'w ddweud am ddyfodol y ddisgyblaeth – naill ai'r ddisgyblaeth neu'r proffesiwn ei hun?**

**RG:** O diar, rydych chi'n gofyn nawr i hanesydd ragweld y dyfodol.

**SP: Dyna'r llinell mae llawer yn ei ddefnyddio.**

**RG:** Ie, dydyn ni ddim i fod i wneud hynny. Rydym ni'n cael ein hyfforddi i beidio â'i wneud. Mae'n debyg y byddwn i'n dweud fy mod i'n optimistaidd am le hanes mewn cymdeithas wareiddiedig, sef yr hyn ydym ni o hyd. Rwyf i'n cael fy nghalonogi gan rai o'r datblygiadau weithiau er gwaethaf y rheini sy'n trefnu'r cyfan oddi fry yn y llywodraeth. Mae'r ffrwydrad o ddiddordeb yn yr amgylchedd hanesyddol yn fy nghalonogi. Wrth i'r bygythiadau i'n hamgylchedd gynyddu, mae'n fy nharo i fod y cyhoedd, gan gynnwys academyddion, yn fwy ymwybodol, ac yn parhau'n ymwybodol, o'r amgylchedd fel amgylchedd hanesyddol, rhywbeth sydd wedi'n cyflyru ni ac rydym ni yn ei gyflyru. Felly mae hynny'n fy nghalonogi.

Mae'r byd cyhoeddi yn fy nghalonogi. Er bod cyhoeddi mewn hanes wastad wedi bod yn broffesiwn dryslyd, er hynny mae'n elfen o'r diddordeb cyhoeddus hwn. Mae'r maint o gyhoeddi sy'n cael ei wneud ym maes hanes, heb fod yn dda i gyd wrth gwrs, yn fy nghalonogi, yn enwedig y nifer o gyhoeddwyr bach sy'n ymddangos ymhobman. Yn bendant pan ddechreuais i ddysgu roedd llawer llai o fannau i gyhoeddi, boed gyfnodolion, neu gyhoeddwyr llyfrau. Heddiw mae ystod ehangach o lawer.

Prifysgolion: roeddwn i'n Ddirprwy Is-Ganghellor am rai blynyddoedd felly fe welais i bethau o'r tu mewn ond hefyd y cysylltiadau â'r sefydliadau oedd yn rheoli ein gweithrediadau. Rwyf i'n llai optimistaidd mae'n debyg yn hyn o beth. Mae llywodraethau wedi dod yn llawer parotach i ymyrryd a heddiw maen nhw'n dymuno busnesa, er gwaethaf yr hyn maen nhw'n ei ddweud. Ac mae hynny'n iawn oherwydd nhw yw ein llywodraethau a ni sy'n eu hethol, ond maen nhw'n dymuno ymyrryd drwy'r amser. Oherwydd bod eu ffocws nhw mor fyrhoedlog (prin bedair blynedd mae'n debyg) maen nhw'n ceisio ymyrryd drwy'r amser, maen nhw am wneud pethau, gadael etifeddiaeth, newid pethau. Ac mae hynny yn profi'n faich trwm i brifysgolion ymdrin ag ef.

Wedi'r cyfan, pan edrychwch chi ar brifysgolion, maen nhw'n bethau ffisegol gydag adeiladau enfawr. Does dim modd newid adeiladau a'u dibenion pob pedair blynedd, a does dim modd adeiladu neuaddau preswyl yn sydyn na'u fforddio er mwyn derbyn nifer enfawr o fyfyrwyr. Dydyn nhw ddim yn gallu diswyddo pobl ym maes hanes er mwyn cyflogi mwy o bobl ym maes ffiseg. Mae'r holl bethau hyn yn anymarferol. Felly dwyf i ddim yn hollol optimistaidd. Dwyf i ddim yn besimistaidd am y peth ond rwyf i'n llai optimistaidd. Mae brwydrau i'w hymladd. Ond cyhyd â'n bod ni'n parhau i gyflogi a rhoi lle yn ein cymdeithas i ysgolheigion meddylgar yna bydd y wlad mewn dwylo da. A hyd y gwelaf i, er na fyddwn efallai'n synhwyrol iawn bob tro yn trefnu ein hysgolheigion er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad gorau i gymdeithas, mae'n ymddangos serch hynny ein bod yn parhau i fod yn byw mewn cymdeithas wareiddiedig, sy'n rhoi gwerth uchel ar ysgolheigion, academyddion, gwyddonwyr o bob disgrifiad, a dwyf i ddim yn gweld hynny'n newid. Felly mae hynny'n galondid.

**SP: Wel, efallai fod y syniad calonogol yna'n lle da i orffen, felly, Athro, diolch yn fawr iawn.**

**RG:** Diolch.